CFfG
BCW
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

COD YMARFER
AR GYFER COMISIYNWYR

Tachwedd 2002

Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ 029 2039 5031 Fax/Ffacs 029 2039 5250
e-mail/e-bost bcomm.wales@lgbc-wales.gov.uk
Web Site www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan www.comffin-cymru.gov.uk
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh

GWERTHOEDD GWASANAETH CYHOEDDUS

Rhaid i'r aelodau a benodwyd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (*gweler y troed nodyn mewn italig*), sydd yn Gorff Cyhoeddus An-Adrannol ymgynghorol, bob amser:

- cadw at y safonau uchaf o ran bod yn ddiduedd, gonestrwydd a gwrthrychedd mewn perthynas â'r cyngor a roddant ac wrth reoli'r corff cyhoeddus hwn;

- bod yn atebol i'r Senedd ac i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol am ei weithgareddau ac am safon y cyngor a roddir ganddo; ac

- yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar fod yn agored, gydymffurfio yn llawn â'r *Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth* (Sydd ar gael o Adran yr Arglwydd Ganghellor).

SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS

Rhaid i aelodau'r Comisiwn:

- dilyn y *Saith Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus* (Atodiad A) a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus;

- cydymffurfio â'r Cod hwn, a sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn gyfarwydd â swyddogaeth a rôl y corff cyhoeddus hwn ac unrhyw ddatganiadau perthnasol sy'n ymwneud â pholisi'r Llywodraeth. Dylai aelodau'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'u rôl gyhoeddus ac arfer doethineb priodol. Dylai aelodau newydd o'r Comisiwn ystyried mynychu cyrsiau hyfforddi neu sefydlu perthnasol;

- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gânt yn ystod eu gwaith cyhoeddus at ddibenion budd personol neu ddibenion gwleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle o fod ym maes gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat na buddiannau pobl, cwmnïau, busnesau na sefydliadau eraill y maent yn gysylltiedig â hwy;

- peidio â bod mewn swyddi cyflogedig neu ddi-dâl mewn plaid wleidyddol, na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol.

At ddibenion y Cod Ymarfer hwn, yr aelodau a benodwyd yw'r Dirprwy Gadeirydd a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, a'r ddau aelod arall a benodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru

RÔL AELODAU'R COMISIWN

Mae gan aelodau'r Comisiwn gyd-gyfrifoldeb dros weithredu'r corff cyhoeddus hwn. Rhaid iddynt:

- cymryd rhan lawn wrth ystyried y materion ar y cyd, gan gymryd i ystyriaeth yr ystod llawn o ffactorau perthnasol;

- sicrhau y cedwir at *Y Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth* (gan gynnwys ymateb prydlon i geisiadau gan y cyhoedd am wybodaeth); dod i gytundeb am yr Adroddiad Blynyddol;

- ymateb yn briodol i gwynion, gan eu cyfeirio at yr adran nawdd os yn berthnasol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog); a

- sicrhau na fydd y Comisiwn yn mynd y tu hwnt i'w bwerau na'i swyddogaethau.

Bydd gohebiaeth rhwng y Comisiwn a'r Ysgrifennydd Gwladol yn digwydd ar y cyfan drwy'r Dirprwy Gadeirydd ac eithrio lle mae'r Comisiwn wedi cytuno y gall aelod unigol o'r Comisiwn weithredu ar ei ran. Ond, mae gan unrhyw aelod o'r Comisiwn yr hawl i gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol, neu 'r Gweinidog a'i penododd, ar unrhyw fater sy'n achosi pryderon pwysig yn ei farn ef neu hi, mewn perthynas â'i ddyletswyddau fel aelod o'r Comisiwn. Mewn achosion o'r fath, dylid cael caniatâd y Dirprwy Gadeirydd ac aelod arall y Comisiwn fel arfer.

Fel arfer, gall aelodau unigol o'r Comisiwn gael eu symud o'r swydd, gan y Gweinidog a'u penododd, os na fyddant yn llwyddo i berfformio'r dyletswyddau sy'n ofynnol ohonynt yn unol â'r safonau sydd i'w disgwyl mewn swydd gyhoeddus.

RÔL Y DIRPRWY GADEIRYDD

Mae gan y Dirprwy Gadeirydd gyfrifoldeb penodol dros ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar y materion uchod. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Gadeirydd yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y Comisiwn yn cwrdd ar gyfnodau priodol, a bod cofnodion y cyfarfodydd ac unrhyw adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofnod cywir o'r penderfyniadau a wnaethpwyd, ynghyd â barn aelodau unigol y Comisiwn lle y bo'n briodol.

- cynrychioli barn y Comisiwn i'r cyhoedd; a

- sicrhau y caiff aelodau newydd y Comisiwn eu briffio pan gânt eu penodi (ac y rhoddir ystyriaeth i'w anghenion hyfforddi), darparu asesiad o'u perfformiad, os gwneir cais amdano, pan fydd aelodau yn cael eu hystyried ar gyfer ail-benodiad i'r Comisiwn neu ar gyfer eu penodi i fwrdd corff cyhoeddus arall.

YMDRIN Â GWRTHDARO BUDDIANNAU

Diben y darpariaethau hyn yw osgoi unrhyw berygl i aelodau'r Comisiwn gael eu dylanwadu, neu ymddangos iddynt gael eu dylanwadu, gan eu buddiant preifat wrth ymgymryd â'u dyletswyddau cyhoeddus. Felly dylai pob aelod o'r Comisiwn ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn, neu a allai ymddangos felly (gan aelod rhesymol o'r cyhoedd). Dylai hyn gynnwys o leiaf fuddiannau personol uniongyrchol a buddiannau ariannol anuniongyrchol, a dylai fel arfer hefyd gynnwys fuddiannau tebyg sydd

gan aelodau agos o'r teulu a phobl sy'n byw o dan yr un to (*gweler y troednodyn mewn italig*). Dylai'r gofrestr fuddiannau gael ei diweddaru'n gyson a bod ar agor i'r cyhoedd. Dylid gwneud datganiad o fuddiant hefyd mewn unrhyw gyfarfod o'r Comisiwn os yw'n ymwneud yn benodol â mater sy'n cael ei ystyried, i'w nodi yn y cofnodion (pa un a fydd aelod o'r Comisiwn hefyd yn tynnu allan o'r cyfarfod ai peidio).

Ni ddylai aelodau'r Comisiwn gymryd rhan mewn trafodaethau am faterion y mae ganddynt fuddiant ynddynt, a dylent fel arfer dynnu allan o'r cyfarfod (hyd yn oed os caiff ei gynnal yn gyhoeddus) os:

- bydd eu buddiant yn uniongyrchol ac yn ariannol; neu

- bydd eu buddiant wedi ei gynnwys mewn arweiniad penodol a gyhoeddwyd gan y corff cyhoeddus hwn neu'r Swyddfa Gartref sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt beidio â chymryd rhan a/neu i dynnu allan o'r cyfarfod.

RHWYMEDIGAETH BERSONOL AELODAU'R COMISIWN

Mae achosion cyfreithiol gan drydydd parti yn erbyn aelodau unigol Comisiwn cyrff cyhoeddus ymgynghorol yn anarferol iawn. Gall aelod o'r comisiwn fod yn bersonol atebol pe bai'n gwneud datganiad ffug neu esgeulus sy'n arwain at golled i drydydd parti; neu gallai dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad neu drosedd o dan ddeddfwriaeth ymdriniaeth fewnol, pe bai ef neu hi yn camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi nodi na fydd aelodau unigol o gomisiwn sydd wedi gweithredu'n onest, yn rhesymol, mewn ymddiriedaeth a heb esgeulustod yn gorfod defnyddio eu hadnoddau personol i fodloni unrhyw rwymedigaeth sifil bersonol a ddaw i law wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau gyda'r Comisiwn, neu a dybir felly. Dylai aelodau o'r Comisiwn sydd angen rhagor o wybodaeth gysylltu â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Bydd buddiannau ariannol anuniongyrchol yn deillio o gysylltiadau â chyrff sydd â buddiant ariannol uniongyrchol neu o fod yn bartner busnes rhywun sydd â buddiant o'r fath neu o gael eu cyflogi ganddynt. Mae buddiannau an-ariannol yn cynnwys y rhai sy'n deillio o aelodaeth o glybiau a sefydliadau eraill. Mae aelodau agos o'r teulu yn cynnwys partneriaid personol, rhieni, plant (oedolion ac ifanc), brodyr, chwiorydd a phartneriaid personol unrhyw rai o'r rhain.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Saith Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb
Dylai deiliad swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn llwyr er budd y cyhoedd. Ni ddylent wneud hynny er budd ariannol na budd materol arall iddynt hwy eu hunain, eu teulu, na'u ffrindiau.

Integredd
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol nac unrhyw ddyled arall i unigolion neu sefydliadau o'r tu allan a allai ddylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd
Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud eu dewis ar sail teilyngdod.

Atebolrwydd
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn fodlon cael eu harchwilio i'r graddau sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn Agored
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl am bob penderfyniad a gweithred a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a dim ond pan fydd y budd cyhoeddus ehangach yn galw am hynny y dylid cyfyngu gwybodaeth.

Gonestrwydd
Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw anghydfodau mewn modd a fydd yn amddiffyn budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chynnal yr egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth a thrwy osod esiampl.

Cymeradwyodd y Llywodraeth y Saith Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus yn y ddogfen "Spending Public Money: Governance and Audit Issues" CM 3179, Mawrth 1996